

# Cynghorion i ymgeiswyr Horizon 2020 o Gymru



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Mae gan Horizon 2020 yng Nghymru sgiliau, profiad ac arbenigedd sylweddol. Mae cymuned ymarfer arbenigwyr a gwerthuswyr Horizon 2020 yng Nghymru yn un enghraifft o'r modd y caiff yr arbenigedd hwn ei ddefnyddio i rannu cyngor ymarferol a chanllawiau anffurfiol i gymuned ehangach Horizon 2020 yng Nghymru.

**Dyma bum awgrym ymarferol i ddarpar ymgeiswyr Horizon 2020:**

## 1. Gofalwch eich bod yn gwybod beth rydych yn chwilio amdano a dechreuwch chwilio...

Mae rhaglenni gwaith Horizon 2020 yn cynnig cyfleoedd ariannu amrywiol drwy wahanol bynciau a drwy alw am gynigion. Treuliwch amser yn ymglyfarwyddo â phorthol cyfranogwyr Horizon 2020, chwiliwch am gyfleoedd sydd o ddiddordeb i chi a dechreuwch ymchwilio i system ariannu'r UE. Gall y [Pwyntiau Cyswllt Cenedlaethol](#) eich helpu chi gyda hyn ac mae'n bosibl y gall [Uned Horizon 2020](#) eich helpu i gysylltu ag eraill sy'n gweithio yn eich maes yng Nghymru.

## 2. Astudiwch yr alwad yn ofalus a chynlluniwch ymlaen llaw...

Ar ôl gweld galwad perthnasol, mae'n hanfodol eich bod yn paratoi mor fuan â phosib. Cyn dechrau ysgrifennu dim, astudiwch gynnwys yr alwad yn ogystal â thudalennau rhagarweiniol y Rhaglenni Gwaith i weld sut mae eich prosiect yn cyd-fynd â'r cyd-destun ehangach. Darllenwch yr holl ddogfennau cysylltiedig, nodwch y cerrig milltir a'r amserlenni gofynnol, a dechreuwch gynllunio'n awr!

## 3. Ewch ati i ddatblygu consortiwm cryf...

Mae angen consortia o bartneriaid o wahanol wledydd, diwydiannau a sefydliadau academiaidd i sicrhau arian ar gyfer gwaith ymchwil ac arloesi. Treuliwch amser yn datblygu partneriaethau amrywiol sy'n cynnwys y cyfuniad priodol o gynrychiolwyr a gwybodaeth ryngwladol; a bydd hefyd yn fuddiol sicrhau cydbwysedd rhwng y ddau ryw ar y timau ymchwil. Cewch gymorth gan y canlynol:

- Y canolfannau rhagoriaeth, sy'n cael cymorth ariannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, a allai gynnig cymorth a chyfleoedd i gydweithredu (holwch Uned Horizon 2020 am y manylion);
- [Cynllun SCoRE Cymru](#) sy'n helpu gyda chostau teithio yn y DU, Ewrop a'r tu hwnt i gyfarfod â phartneriaid posibl a chryfhau cysylltiadau presennol;
- [Rhwydwaith Menter Ewrop \(EEN\)](#) a allai eich helpu i ddod o hyd i bartneriaid busnes posibl o bob rhan o Ewrop, a dod i gysylltiad â nhw;

- Mae'r [Uned Trosglwyddo Gwybodaeth \(KTN\)](#) yn gweithio gyda chwmnïau i helpu i ddod o hyd i gyfleoedd cyllido, llunio partneriaethau a chefnogi cynigion gyda chyngor ac arweiniad yn benodol i'r sector ar gyfleoedd i farchnata;
- Porthol Cyfranogwyr Horizon 2020 lle mae'n bosibl [chwilio am bartner](#).

#### 4. Meddylwch am iaith a strwythur eich cynnig a'i gyflwyno'n gynnar...

Mae'n hanfodol cael syniad ardderchog ar gyfer prosiect ond mae troi hwn yn gynnis llwyddiannus yn grefft. Cofiwch fod yn rhaid i'r gwerthuswyr ystyried nifer o gynigion mewn cyfnod byr. Dyma rai camau syml ac effeithiol i'w cadw mewn cof i helpu'r gwerthuswyr i asesu'ch cynnig:

- Mae'n bosibl nad Saesneg fydd iaith gyntaf y gwerthuswr. Astudiaeth yr alwad a defnyddiwch yr un geiriau ac ymadroddion allweddol – bydd hynny'n helpu'r gwerthuswyr i sylweddoli bod eich cynnig yn cyd-fynd â'r meini prawf a bennwyd;
- Meddylwch am deitl cofiadwy a chrynodeb sy'n glir ac yn fyr. Os yw'ch prosiect yn dechnegol iawn, bydd hyn o gymorth mawr i'r gwerthuswr ddeall eich prosiect o'r dechrau'n deg;
- Bydd gwerthuswyr yn disgwyl i'r cynnwys fod yn berthnasol a dylech ei addasu i gyd-fynd â'ch cynnig. Ceisiwch osgoi'r demtasiwn i ddefnyddio gwybodaeth barod / safonol;
- Mae gan bobl o bob sector brofiad o ysgrifennu cynigion. Siaradwch â gwerthuswyr Horizon 2020 neu ymgeiswyr profiadol o'r tu mewn a'r tu allan i'ch sefydliad, gan gynnwys dysgu oddi wrth gynigion a fu'n llwyddiannus yn y gorffennol. Gall hyn eich helpu i osgoi syrthio i faglau cyffredin.
- Gall porthol yr ymgeiswyr redeg yn araf iawn wrth i'r dyddiad cau agosáu. Dylech lanlwytho eich cynnig i'r porthol yn gynnar a'i ddiweddarw wedyn – gymaint o weithiau ag sydd angen hyd y dyddiad cau (cofiwch yr amserlen).

#### 5. Cofrestrwch i fod yn un o werthuswyr Horizon 2020...

Cofrestru fel gwerthuswr yw un o'r ffyrdd gorau o feithrin gwybodaeth amhrisiadwy am broses werthuso Horizon 2020. Bydd y broses yn cynnig profiad uniongyrchol o'r hyn yw cynnig llwyddiannus, sut y caiff pwyntiau eu hennill a'u colli, a bydd yn gyfle hefyd i gyfarfod â chysylltiadau defnyddiol a darpar bartneriaid. I gael rhagor o wybodaeth neu i gofrestru fel arbenigwr, darllenwch 'Y buddion sydd ynghlwm wrth fod yn werthuswr' a/neu ewch i [adran yr arbenigwyr](#) ym Mhorthol y Cyfranogwyr.

#### Rhagor o wybodaeth

E-bost: [Horizon2020@cymru.gsi.gov.uk](mailto:Horizon2020@cymru.gsi.gov.uk)  
Newyddion am gronfeydd yr UE: [wefo.llyw.cymru](http://wefo.llyw.cymru)

Twitter: [twitter.com/wefocymru](https://twitter.com/wefocymru)  
YouTube: <https://www.youtube.com/user/welshgovernment>